Senario 1





Mae deliwr yn mynd at Jason ac yn cynnig gwerthu Sbîd iddo. Mae Jason yn prynu'r cyffuriau.

1. A yw unrhyw un yn torri'r gyfraith?
2. Pa droseddau maen nhw wedi eu cyflawni?
3. Beth yw'r gosb uchaf y gallent ei chael o dan y gyfraith?
4. Pa gosb fyddech chi'n ei rhoi iddynt os mai chi fyddai'r ynad heddwch?

Gwybodaeth ychwanegol = mae'r deliwr yn 28 oed a Jason yn 13 oed
Pa gosb fyddech chi'n ei rhoi i'r ddau ohonynt nawr?

Senario 2





Mae Sian wedi cael presgripsiwn ar gyfer Temazepam (Green Eggs, Jellies) gan y meddyg i'w helpu i gysgu. Mae ei ffrind Joanna yn gofidio am fynd i'r llys y diwrnod canlynol ac mae'n methu cysgu. Mae Sian yn rhoi un o'i thawelyddion i Joanne i helpu i'w thawelu.

1. A yw unrhyw un yn torri'r gyfraith?
2. Pa droseddau maen nhw wedi eu cyflawni?
3. Beth yw'r gosb uchaf y gallent ei chael o dan y gyfraith?
4. Pa gosb fyddech chi'n ei rhoi iddynt os mai chi fyddai'r ynad heddwch?

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent

Senario 3





Mae John a Gareth yn byw mewn hostel pobl ifanc ac yn aml yn ysmygu canabis yn eu hystafelloedd. Bethan yw rheolwr yr hostel. Mae hi'n gwybod eu bod yn gwneud hyn ond mae'n teimlo mae eu dewis hwy ydyw cyhyd nad ydynt yn poeni unrhyw un arall.

1. A yw unrhyw un yn torri'r gyfraith?
2. Pa droseddau maen nhw wedi eu cyflawni?
3. Beth yw'r gosb uchaf y gallent ei chael o dan y gyfraith?
4. Pa gosb fyddech chi'n ei rhoi iddynt os mai chi fyddai'r ynad heddwch?

Senario 4





Mae Kevin a Tracy mewn clwb nos. Maent eisiau prynu E's ac maent wedi clywed bod deliwr wedi dweud os gwnânt brynu llawer gyda'i gilydd y byddant yn rhatach. Mae tua 15 o'u ffrindiau yn cyfrannu i brynu'r E's mewn swmp am bris is. Mae Kevin yn defnyddio arian ei ffrindiau i brynu 40 tabled gan y deliwr. Ar ei ffordd yn ôl at ei ffrindiau, mae'r heddlu yn ei stopio.

1. A yw unrhyw un yn torri'r gyfraith?
2. Pa droseddau maen nhw wedi eu cyflawni?
3. Beth yw'r gosb uchaf y gallent ei chael o dan y gyfraith?
4. Pa gosb fyddech chi'n ei rhoi iddynt os mai chi fyddai'r ynad heddwch?

Senario 5







Mae Mai yn sefyllian tu allan i siop leol ac yn gofyn i oedolion sy'n mynd i mewn i'r siop i brynu sigaréts iddi. Mae un oedolyn yn cytuno ac yn prynu sigaréts i Mai. Mae'n eu rhoi iddi y tu allan i'r siop ar ôl i Mai roi'r arian iddo.

1. A yw unrhyw un yn torri'r gyfraith?
2. Pa droseddau maen nhw wedi eu cyflawni?
3. Beth yw'r gosb uchaf y gallent ei chael o dan y gyfraith?
4. Pa gosb fyddech chi'n ei rhoi iddynt os mai chi fyddai'r ynad heddwch?

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent


Senario 6





Prynodd Brian gyffur Sylweddau Seicoweithredol Newydd (SSN) gan ddeliwr lleol a ddywedodd ei fod wedi ei brynu ar y Rhyngrwyd. Dywedodd hefyd ei fod yn gyfreithlon. Yn ddiweddarach caiff Brian ei stopio a'i chwilio gan yr heddlu, yn dilyn digwyddiad. Mae'r heddlu yn dod o hyd i'r NED a chaiff Brian ei arestio ar amheuaeth o fod ym meddiant sylwedd a reolir. Heb yn wybod i Brian pan gafodd y SSN ei ddadansoddi darganfuwyd bod olion cocên ynddo.

1. A yw unrhyw un yn torri'r gyfraith?
2. Pa droseddau maen nhw wedi eu cyflawni?
3. Beth yw'r gosb uchaf y gallent ei chael o dan y gyfraith?
4. Pa gosb fyddech chi'n ei rhoi iddynt os mai chi fyddai'r ynad heddwch?

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent

Senario 7





Prynodd Ffion gyffur newydd ar y Rhyngrwyd a oedd heb yn wybod iddi hi yn cynnwys olion o amffetamin. Mae'n cyrraedd drwy'r post ac mae Ffion yn gwahodd ei dwy ffrind i roi cynnig arno mewn parti yn ei thŷ. Mae un o'i ffrindiau yn mynd yn sâl a gelwir ambiwlans. Wedi iddynt gyrraedd mae'r parafeddygon yn asesu'r sefyllfa ac yn galw'r heddlu. Mae'r heddlu yn atafaelu'r cyffur ac yn arestio'r tair merch gan fod gan bob un ychydig o'r cyffur yn eu meddiant.

1. A yw unrhyw un yn torri'r gyfraith?
2. Pa droseddau maen nhw wedi eu cyflawni?
3. Beth yw'r gosb uchaf y gallent ei chael o dan y gyfraith?
4. Pa gosb fyddech chi'n ei rhoi iddynt os mai chi fyddai'r ynad heddwch?

Senario 8





Clywodd Ali am gyffur Sylweddau Seicoweithredol Newydd (SSN) ar y Rhyngrwyd ac mae eisiau roi cynnig arno. Mae'n ffonio Bill sy'n dweud y gall gael y cyffur iddo. Mae Bill yn trefnu i ffrind arall, John, i fynd â'r SSN i Ali. Cafodd yr heddlu wybod hyn ac maent yn arestio John pan welant ef yn rhoi'r cyffur i Ali. Cafodd Ali hefyd ei arestio gan fod arian wedi ei gyfnewid. Ar ôl iddynt gael eu cyfweld caiff Bill, a gyflenwodd y cyffur, hefyd ei arestio. Dadansoddir y SSN ac mae swm bach o 'meow' wedi ei gymysgu ynddo.

1. A yw unrhyw un yn torri'r gyfraith?
2. Pa droseddau maen nhw wedi eu cyflawni?
3. Beth yw'r gosb uchaf y gallent ei chael o dan y gyfraith?
4. Pa gosb fyddech chi'n ei rhoi iddynt os mai chi fyddai'r ynad heddwch

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent